



# Defnydd Hydrin



Sir y Fflint
Flintshire





Early Entitlement
Cyfle Cynnar

Flintshire Foundation Phase Team
Tîm Cyfnod Sylfaen Sir y Fflint

# Defnydd hydrin

## CAMAU DATBLYGU — FFURFIO (1)





**Dechrau gyda thoes, a symud ymlaen i ddefnyddio defnyddiau hydrin eraill, gan gynnwys clai**

| DISGRIFIAD O'R CAMAU | CYMORTH GAN OEDOLYN / ADNODDAU | |
|---|---|---|
| Archwilio defnyddiau hydrin. | **Oedolyn** - Rhoi darn o ddefnydd hydrin maint dwrn i bob plentyn. Caniatáu iddynt archwilio drwy ei binsio, ei brocio, ei daro, ei wasgu, ei rwygo a'i wastatáu etc.<br>**Adnoddau** - Defnydd hydrin, mat. |  |
| Rholio defnyddiau hydrin yn ôl ac ymlaen â'r dwylo. | **Oedolyn** - Helpu'r plentyn i rwygo darnau llai oddi ar y defnydd hydrin. Dangos sut i'w rolio'n ôl ac ymlaen, nail ai ar wyneb fflat neu rhwng y dwylo, i greu siâp selsig.<br>**Adnoddau** - Defnydd hydrin, mat. |  |
| Gwastatáu defnyddiau hydrin gan ddefnyddio rholbren. | **Oedolyn** - Dangos sut i wastatáu'r defnydd, gan eistedd wrth ochr y plentyn.<br>**Adnoddau** - Defnydd hydrin, mat, rholbren. |  |
| Rholio defnyddiau hydrin i greu pêl . | **Oedolyn** - Dangos sut i rolio'r defnydd hydrin rownd a rownd, naill ai ar arwyneb fflat neu rhwng y dwylo, i greu pêl (sffêr).<br>**Adnoddau** - Defnydd hydrin, mat. |  |
| Defnyddio mowldiau bas gyda defnyddiau hydrin i greu siâp . | **Oedolion** - Dangos sut i greu siapiau gan eistedd wrth ochr y plentyn. Ei helpu ei dynnu'r defnydd hydrin yn ofalus o'r mowld.<br>**Adnoddau** - Defnydd hydrin, mat, mowldiau bas e.e. mowldiau silicon a phlastig etc. |  |

# Defnydd hydrin

## CAMAU DATBLYGU—FFURFIO (2)




**Dechrau gyda thoes, a symud ymlaen i ddefnyddio defnyddiau hydrin eraill, gan gynnwys clai.**

| DISGRIFIAD O'R CAMAU | CYMORTH GAN OEDOLYN / ADNODDAU | |
|---|---|---|
| Creu model sy'n golygu rhywbeth iddynt, gan ddefnyddio bysedd a dwylo. | **Oedolyn** - Annog y plant i wneud model ac i sgwrsio amdano. Tynnu sylw at y gwahaniaeth rhwng modelau'r plant.<br>**Adnoddau** - Defnydd hydrin, mat. |  |
| Archwilio sut i wthio a gwasgu defnydd hydrin drwy dyllau. | **Oedolyn** - Eistedd wrth ochr y plentyn i ddangos sut i wneud hyn ac i helpu os bydd angen.<br>**Adnoddau** - Defnydd hydrin, mat, offer allwthio, hidlen sinc. |  |
| Archwilio sut i uno darnau o ddefnydd hydrin. | **Oedolyn** - Dangos sut i ddefnyddio'r bysedd i wasgu ac i lyfnhau'r uniadau.<br>**Adnoddau** - Defnydd hydrin, mat. |  |
| Archwilio sut i uno darnau o ddefnydd hydrin gan ddefnyddio offer modelu i wasgu a llyfnhau. | **Oedolyn** - Dangos sut i lyfnhau'r uniadau â chyllell balet neu sbatwla.<br>**Adnoddau** - Defnydd hydrin, offer modelu, mat. |  |
| Creu pot bawd. | **Oedolyn**– Dangos sut i greu potiau bawd drwy wthio'r bawd i mewn i belen o ddefnydd hydrin i greu siâp pot. Annog y plentyn i wneud yr un fath.<br>**Adnoddau** - Defnydd hydrin, mat. |  |

# Defnydd hydrin

## CAMAU DATBLYGU—FFURFIO (3)






**Dechrau gyda thoes, a symud ymlaen i ddefnyddio defnyddiau hydrin eraill, gan gynnwys clai**

| DISGRIFIAD O'R CAMAU | CYMORTH GAN OEDOLYN / ADNODDAU | |
|---|---|---|
| Archwilio sut i uno darnau o glai. | **Oedolyn** - Dangos y dechneg o wneud slip (drwy ychwanegu dŵr at glai) i uno'r clai<br>**Adnoddau** - Clai, offer modelu, mat, offer modelu, slip. |  |
| Defnyddio technegau gwahanol i helpu i greu model. | **Oedolyn** - Dangos sut i uno dwy belen i greu corff model.<br>**Adnoddau** - Defnydd hydrin neu ddefnydd modelu arall, mat. |  |
| Creu torch/pot crwn. | **Oedolyn** - Dangos sut i greu torch/ pot crwn drwy droelli rholiau hir o ddefnydd hydrin i greu pot. Annog y plant i wneud eu potiau eu hunain.<br>**Adnoddau** - Defnydd hydrin, mat. |  |
| Defnyddio sgiliau a thechnegau i greu model sydd ag ystyr bersonol. | **Oedolyn** - Trafod y model â'r plentyn a helpu os oes angen.<br>**Adnoddau** - Defnydd hydrin, offer modelu, mat, offer modelu, slip. |  |
| Cynllunio ymlaen llaw ac yna'n siapio defnyddiau hydrin i wneud y model.<br>(Os yw wedi symud cam ymlaen mae'n bosibl y gall y plentyn gynllunio'r model ar bapur yn gyntaf). | **Oedolyn** - Trafod y cynllun/ y model ac annog y plentyn.<br>**Adnoddau** - Offer modelu, papur, defnydd hydrin, pinnau ysgrifennu/ pensiliau, mat. |  |

# Defnydd hydrin

## CAMAU DATBLYGU—TORRI

**Dechrau gyda thoes, a symud ymlaen i ddefnyddio defnyddiau hydrin eraill, gan gynnwys clai**

| DISGRIFIAD O'R CAMAU | CYMORTH GAN OEDOLYN / ADNODDAU | |
|---|---|---|
| Archwilio sut i dorri defnyddiau hydrin. | **Oedolyn** - Dangos sut i ddefnyddio cyllell ddi-fin i dorri'n ddiogel . **Adnoddau** - Defnydd hydrin, mat, cyllell ddi-fin . |  |
| Torri drwy ddefnydd hydrin wedi'i rolio'n siâp selsig. **D.S. Darllenwch hefyd y daflen 'Ffurfio' .** | **Oedolyn** - Cyflwyno gwahanol offer torri a dangos sut i'w defnyddio . **Adnoddau** - Toes, mat, cyllell ddi-fin, olwyn dorri, siswrn plastig. |  |
| Torri drwy ddarn o ddefnydd hydrin sydd wedi'i wastatáu. | **Oedolyn** - Tynnu sylw at yr angen i wastatáu darn o ddefnydd hydrin cyn ei dorri. Cyflwyno gwahanol offer torri a dangos sut i'w defnyddio. **Adnoddau** - Defnydd hydrin, mat, rholbrennau, cyllell ddi-fin, torwyr toes, olwyn dorri, siswrn plastig. |  |
| Defnyddio offer modelu confensiynol i dorri drwy ddefnydd hydrin. | **Oedolyn** - Cyflwyno offer torri confensiynol a dangos sut i'w defnyddio . **Adnoddau** - Defnydd hydrin, mat, offer torri. |  |
| Defnyddio gwifren dorri i dorri clai | **Oedolyn** - Cyflwyno gwifren dorri a dangos sut i'w defnyddio'n ddiogel . **Adnoddau** - Defnydd hydrin, mat, offer torri. |  |

# Defnydd hydrin

## CAMAU DATBLYGU—ADDURNO




**Dechrau gyda thoes, a symud ymlaen i ddefnyddio defnyddiau hydrin eraill, gan gynnwys clai.**

| DISGRIFIAD O'R CAMAU | CYMORTH GAN OEDOLYN / ADNODDAU | |
|---|---|---|
| Gosod gwrthrychau ar hap mewn defnydd hydrin a'u gadael yno. | **Oedolyn** - Cynnig gwrthrychau mawr i'r plentyn, yna gwrthrychau llai, i'w gosod yn y defnydd hydrin .<br>**Adnoddau** - Defnydd hydrin, mat, gwrthrychau amrywiol i addurno. |  |
| Defnyddio gwrthrychau i addurno'r toes gan eu gosod efallai mewn gwahanol lefydd cyn penderfynu ar eu safle terfynol. | **Oedolyn** - Chwarae ochr yn ochr â'r plentyn, ei annog i ddewis ar ôl ystyried.<br>**Adnoddau** - Defnydd hydrin, mat, gwrthrychau amrywiol i addurno. |  |
| Cynllunio ar lafar, dewis a gosod gwrthrychau i addurno. | **Oedolyn** - Trafod yr hyn y mae'r plentyn yn bwriadu ei wneud a'i helpu os oes angen .<br>**Adnoddau** - Defnydd hydrin, mat, gwrthrychau amrywiol i addurno. |  |
| Cynllunio ymlaen llaw, tynnu llun ar bapur ac addurno i wella'r model. | **Oedolyn** - Trafod y cynllun/model ac annog y plentyn.<br>**Adnoddau** - Defnydd hydrin, mat, gwrthrychau amrywiol i addurno, papur, pensiliau/pinnau ysgrifennu. |  |
| Tynnu llun y cynllun, gwerthuso a mireinio . | **Oedolyn** - Helpu ac annog y plentyn i werthuso a mireinio'r cynllun/ model gwreiddiol<br>**Adnoddau** - Defnydd hydrin, mat, gwrthrychau amrywiol i addurno, papur, pensiliau/pinnau ysgrifennu |  |

# Defnydd hydrin

## CAMAU DATBLYGU—GWNEUD MARCIAU (1)

**Dechrau gyda thoes, a symud ymlaen i ddefnyddio defnyddiau hydrin eraill, gan gynnwys clai.**

| DISGRIFIAD O’R CAMAU | CYMORTH GAN OEDOLYN / ADNODDAU | |
|---|---|---|
| Archwilio sut i wneud marciau ar ddefnydd hydrin. | **Oedolyn** - Rhoi amser i’r plentyn archwilio’n rhydd a thynnu sylw at y marciau a wnaeth â’r bysedd a’r dwylo.<br>**Adnoddau** - Defnydd hydrin, mat. |  |
| Gwasgu gwahanol fathau o wrthrychau ar hap i ddefnydd hydrin a sylwi ar y marciau y maent yn eu creu. | **Oedolyn** - Chwarae ochr yn ochr y plentyn a dangos sut i wasgu gwrthrychau i’r defnydd hydrin. Cynnig mwy o ddewis yn raddol. Annog y plentyn i sylwi ar y marciau.<br>**Adnoddau** - Defnydd hydrin, mat, gwrthrychau amrywiol. |  |
| Gwastatáu’r defnydd hydrin ac yna gwasgu/rholio gwrthrychau a sylwi ar y marciau y maent yn eu creu. | **Oedolyn** - Chwarae ochr yn ochr y plentyn a dangos sut i wastatáu defnydd hydrin a gwasgu/rholio gwrthrychau iddo. Annog y plentyn i sylwi ar y marciau.<br>**Adnoddau** - Defnydd hydrin, mat, gwrthrychau amrywiol. |  |
| Archwilio sut i ddefnyddio offer i wneud marciau yn y defnydd hydrin. | **Oedolyn** - Dangos sut i wneud marciau mewn defnydd hydrin ag offer. Defnyddio un offeryn i ddechrau ac yna amrywiaeth ohonynt. Annog y plentyn i sylwi ar y marciau.<br>**Adnoddau** - Defnydd hydrin, offer, mat. |  |
| Defnyddio offer modelu mewn modd confensiynol i wneud marciau yn y defnydd hydrin. | **Oedolyn** - Dangos sut i wneud marciau mewn defnydd hydrin ag offer. Defnyddio un offeryn i ddechrau ac yna defnyddio amrywiaeth. Annog y plentyn i sylwi ar y marciau.<br>**Adnoddau** - Defnydd hydrin, offer, mat. |  |

# Defnydd hydrin

## CAMAU DATBLYGU—GWNEUD MARCIAU (2)

**Dechrau gyda thoes, a symud ymlaen i ddefnyddio defnyddiau hydrin eraill, gan gynnwys clai.**

| DISGRIFIAD O'R CAMAU | CYMORTH GAN OEDOLYN / ADNODDAU | |
|---|---|---|
| Cynllunio ar lafar, dewis offer a gwneud marciau i greu cynllun. | **<u>Oedolyn</u>** - Trafod yr hyn mae'r plentyn yn bwriadu ei wneud a'i helpu os oes angen.<br>**<u>Adnoddau</u>** - Defnydd hydrin, mat, offer gwneud marciau. |  |
| Cynllunio ymlaen llaw, tynnu llun o'r cynllun ac yna gwneud marciau yn y defnydd hydrin . | **<u>Oedolyn</u>** - Trafod y cynllun ac annog y plentyn.<br>**<u>Adnoddau</u>** - Defnydd hydrin, mat, offer gwneud marciau, papur, pinnau ysgrifennu/pensiliau. |  |
| Tynnu llun y cynllun, ei roi ar waith, ei werthuso a'i fireinio. | **<u>Oedolyn</u>** - Helpu ac annog y plentyn a mireinio'r cynllun/model gwreiddiol.<br>**<u>Adnoddau</u>** - Defnydd hydrin, mat, offer gwneud marciau, papur, pinnau ysgrifennu/pensiliau. |  |

# Toes [Rysáit 1]

Dim gwaith coginio

**Cynhwysion ac offer :-**

1kg. 320 o flawd plaen
440g o halen
2 lwy fwrdd o olew coginio
[mae'r mesuriadau hyn yn cynhyrchu toes sydd tua maint torth]

Clorian
Powlen blastig fawr
Llwy bren
Jwg mesur
Llwy fwrdd
Cynhwysydd seliedig

**Dull:-**

1. Rhowch y blawd a'r halen yn y bowlen.
2. Ychwanegwch yr olew llysiau.
3. Yn raddol cymysgwch y dŵr i mewn gan ddal i droi'r gymysgedd nes ei bod yn eithaf gludiog ond ddim yn rhy wlyb.
4. Rhowch y toes ar fwrdd wedi'i orchuddio â blawd a'I dylino.
5. Gallwch nawr dorri'r toes yn ddarnau a'i roi i'r plant i'w 'dylino'.
6. Cadwch y toes mewn cynhwysydd seliedig.



# Toes [Rysáit 2]

Wedi'i goginio mewn popty microdon

**Cynhwysion ac offer:-**

200g o flawd plaen
100g o halen
2 lwy de o hufen tartar
1 llwy fwrdd o olew coginio
300 ml o ddŵr
Lliw bwyd

Clorian
Powlen sy'n addas i'w defnyddio mewn
Popty microdon
Llwy bren
Jwg mesur
Llwy fwrdd
Popty microdon
Cynhwysydd seliedig

**Dull:-**

1. Rhowch y blawd, yr halen, yr hufen tartar a'r olew mewn powlen fawr.
2. Ychwanegwch y lliw bwyd i'r dŵr.
3. Ychwanegwch yr hylif yn raddol at y cynhwysion yn y bowlen a throwch y gymysgedd yn dda.
4. Rhowch y bowlen-heb ei gorchuddio, yn y popty microdon a choginiwch ar y pwer uchaf am funud.
5. Gwisgwch fenig pwrpasol i dynnu'r bowlen o'r popty a throwch y gymysgedd yn dda.
6. Rhowch y bowlen yn ôl yn y popty a daliwch i gogonio'r toes nes ei fod yn dechrau rhyddhau oddi wrth ochrau'r bowlen a throi'n stiff- tua 2-3 munud [trowch y gymysgedd o leiaf unwaith yn ystod yr amser hwn].
7. Gwisgwch fenig pwrpasol i dynnu'r bowlen o'r popty a'i osod ar wyneb gwrth-wres.
8. Crafwch y toes allan gyda llwy bren a'i osod ar fwrdd wedi'i orchuddio ag ychydig o flawd.
9. Tylinwch y toes yn dda.

**RHYBUDD**

Bydd plant ifanc yn ysu i chwarae gyda'r toes ar y pwnyt hwn ac er y bydd yn ymddangos yn oer ar y tu allan, fe allai fod yn eithriadol o boeth tu mewn. **Ni ddylid caniatáu i blant wneud y toes hwn.**

# Toes [Rysáit 3]

Yn defnyddio dŵr berwedig

| **Cynhwysion ac offer:-** | Mwg/cwpan fawr |
|---|---|
| 1 cwpanaid o halen | Powlen fawr |
| 2 gwpanaid o ddŵr berwedig | Llwy bren |
| 2 gwpanaid o flawd plaen | Jwg mesur |
| 4 llwy de o hufen tartar | Cynhwysydd seliedig |
| 2 lwy fwrdd o olew coginio | Llwy fwrdd |
| Lliw bwyd [opsiynol] | Llwy de |
| | Tegell |

**Dull:-**

1. Rhowch y blawd, yr halen, yr hufen tartar, yr olew coginio a'r lliw bwyd mewn powlen fawr.
2. Ychwanegwch y dŵr berwedig a throwch y cyfan yn dda i ffurfio pelen fawr o does.
3. Rhowch y toes ar wyneb wedi'i orchuddio ag ychydig o flawd a'i dylino'n dda.
4. Cadwch y toes mewn cynhwysydd seliedig.
   Gallwch ychwanegu rhinflas i roi arogl i'r toes neu ffacbys i roi gwead iddo.



**RHYBUDD**

Ni ddylid caniatáu i blant wneud y toes hwn.

Sir y Fflint
Flintshire

# Clai Blawd Corn [Rysáit 4]

Wedi'i goginio mewn sosban

| **Cynhwysion ac offer:-** | Mwg/cwpan fawr |
|---|---|
| 2 gwpanaid o halen | Sosban fawr |
| 1 cwpan o ddŵr | Powlen fach |
| 1 cwpanaid of flawd corn | Llwy bred |
| | Cynhwysydd seliedig |

**Dull:-**

1. Rhowch ddwy gwpanaid o halen a 2/3 cwpanaid o ddŵr mewn sosban a'i ferwi.
2. Yn y cyfamser, rhowch y blawd corn yn y bowlen ac yn raddol Ychwanegwch y dŵr sy'n weddill.
3. Ar ôl i'r gymsysgedd dŵr a halen ferwi, tynnwch y sosban oddi ar y tân ac ychwanegwch y gymysgedd o flawd corn a dŵr.
4. Rhowch y sospan yn ôl ar y tân a chynheswch y gymysgedd yn araf gan ddal i'w throi drwy'r amser.
5. Ar ôl iddi ddechrau tewychu, tynnwch y sosban oddi ar y tân a throwch y gymysgedd nes ei bod yn stiff iawn.
6. Rhowch y clai ar fwrdd wedi'i orchuddio ag ychydig o flawd a'i Dylino'n dda.
7. Ar ôl iddo oeri, cadwch y clai mewn cynhwysydd seliedig.

Gellir aersychu'r 'clai' hwn mewn oddeutu 72 awr—yn dibynnu ar faint ar eitem orffenedig. Yna gallwch ei beintio.

**RHYBUDD**

Bydd plant ifanc yn ysu i chwarae gyda'r clai blawd corn ar y pwynt hwn, ond bydd yn boeth iawn ar ôl dod allan o'r sosban.

**Ni ddylid caniatáu i blant y clai hwn.**